

Cymraeg yn Hanfodol

Cyfnod Newydd i Addysg ôl-16

Siarter ar gyfer Colegau Menai, Meirion-Dwyfor, Sir Gâr a Cheredigion



Cymdeithas yr Iaith – Awst 2005

A. Rhagair

1. Mae'r Colegau hyn o'r pwys mwyaf i'n cymunedau Cymraeg gan eu bod yn darparu addysg llawn-amser i bobl ifainc sydd, at ei gilydd, yn bwriadu ymgartefu yn y cymunedau Cymraeg hyn ac addysg rhan-amser i filoedd yn rhagor o drigolion hŷn y cymunedau.
2. Ni all unrhyw bolisi na deddf iaith weithio heb gyfraniad y colegau hyn gan eu bod yn paratoi pobl i weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus a phreifat a gynigir tu fewn i gymunedau Cymraeg. Dibynna llwyddiant unrhyw bolisi iaith yn bennaf ar lwyddiant y colegau hyn i hyfforddi myfyrwyr i gyflawni'u gwaith yn Gymraeg.
3. Cydnabyddwn mai *addysgu* yw priod waith y colegau hyn, nid cynnal cenhadaeth ddiwylliannol arbennig. Byddwn yn ceisio felly trwy'r siarter hwn gyfiawnhau ein gofynion ar sail addysgol.
4. Penodwyd nifer o swyddogion ymroddedig yn y colegau hyn i ddatblygu polisiau addysg Gymraeg a chawsant gryn effaith. Bu eu gwaith yn fwyaf cynhyrchiol lle derbyniwyd cefnogaeth gref ac ymarferol gan eu penaethiaid. Nid yw ein gofynion newydd i'w dehongli'n feirniadaeth negyddol ar eu gwaith. I'r gwrthwyneb, eu gwaith nhw'n creu sylfeini addysg bellach Gymraeg sydd wedi ein galluogi ni i fynnu'n awr gam enfawr ymlaen eto, a dyna ddiben y siarter hwn.
5. Anelir y siarter at y 4 coleg hwn sy'n gwasanaethu'n cymunedau Cymraeg lle mae argyfwng brys iawn. Yn wir, heblaw am fod y colegau hyn a chyrff eraill yn gweithredu'n awr, ni fydd unrhyw gymunedau naturiol Gymraeg yn parhau erbyn y flwyddyn 2020. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu hefyd gyda cholegau eraill megis Llandrillo, Llysfasi, Powys, Penfro a Gorseinon i bwysu arnynt hwythau i weithredu'r un argymhellion, ond gydag amserlen wahanol.

B. Degawd o gynnydd

1. Cyhoeddwyd bron ddegawd yn ôl bamffledyn Cymdeithas yr Iaith *Addysg ôl-16 – Bellach yn Gymraeg*. Ar y pryd, addysg bellach gyfrwng-Saesneg oedd y norm, ac yn wir, yr unig bosibiliad mewn llawer o sefyllfaoedd. Yn yr hen C.C.T.A. (bellach Coleg Sir Gâr) er enghraifft, nid oedd ond un cwrs heblaw am y Gymraeg ei hun trwy'r holl goleg lle defnyddid y Gymraeg o gwbl. Daeth yn fater mwy brys trwy fod Meirion-Dwyfor yn dod yn goleg trydyddol.
2. Yn ystod y 7 mlynedd diwethaf, bu newidiadau mawr trwy fod y colegau hyn yn dechrau cynnig degau o gyrsgiau newydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn dechrau defnyddio'r iaith eu hunain a marchnata'r Gymraeg ac annog staff i wella eu gallu i addysgu'n Gymraeg. Ond bu problemau hefyd.
 - ☛ Er mwyn dangos cyfnod newydd, newidiodd y C.C.T.A. ei enw i *Goleg Sir Gâr* er mwyn dangos ei fod bellach yn gwasanaethu cymunedau Sir Gâr yn ffyddlon fel rhan o'i genhadaeth. Cynhyrchwyd Cynllun Iaith 5 mlynedd. Erbyn tymor yr hydref 2000, fodd bynnag, rhaid oedd ail-asesu'r holl gynllun gan ystyried y targedau'n rhy uchelgeisiol.
 - ☛ - Yng *Ngholeg Meirion-Dwyfor*, dim ond 16% o'r arholiadau ar safle Dolgellau a eisteddir yn Gymraeg, a 43% ar safle Pwllheli erbyn hyn. Go brin fod yma gynnydd ar ganrannau'r 90'au o dan Gyngor Gwynedd. O ran y cyrsiau mwy galwedigaethol, y mae grwpiau ffocws o fyfyrwyr yn tynnu sylw at yr anawsterau o ran astudio'n Gymraeg e.e. diffyg adnoddau yn golygu eu bod 'dan anfantais', athrawon llanw yn ddi-Gymraeg, rhai pynciau ddim ar gael yn Gymraeg etc.
 - ☛ Yng *Ngholeg Menai*, lle bo 60% o ddisgyblion ysgol yn eistedd arholiad Cymraeg iaith gyntaf, dywed *ELWA* i 8% yn unig o fyfyrwyr gael eu cofrestru ar gyfer asesiad Cymraeg yn 2000/2001, ac i hyn godi i 9% ym 2002/2003.
 - ☛ Mae *Coleg Ceredigion* yn rhestru yn ei Gynllun Iaith y cyrsiau hynny a gynigir yn Gymraeg, ond yn cydnabod trwy hynny mai eithriadau ydynt. Sylwn fod y prif ddatblygiadau o ran cynnig cyrsiau newydd yn Gymraeg wedi'u cyflwyno yn 2000 a 2001 a phrin iawn yw datblygiadau 2004 tu allan i'r adran Peirianeg.

YR ARGRAFF LETHOL A GEIR YW FOD Y CYNLLUNIAU IAITH SY'N DEILLIO O SYNIADAETH Y NAWDEGAU YN AWR YN RHEDEG ALLAN O STEM.

3. Eto i gyd, dyma hanfod y Cynlluniau Iaith newydd a'r fersiynau newydd a gymeradwyir ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith, sef *cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr astudio'n Gymraeg neu'n Saesneg*. Yn ymarferol, fodd bynnag, ffug iawn yw'r cydraddoldeb. Mae modd derbyn addysg gyflawn yn Saesneg gan osgoi bron pob cyswllt â'r Gymraeg ar y naill law, ac ar y llaw arall gwelir ymdrech i gynyddu'r cyfleon amodol sydd i dderbyn peth o'r addysg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Cynhelir y myth hwn yn yr holl gynlluniau iaith:

- ☛ Y mae Cynllun *Coleg Sir Gâr* yn cofnodi fel nod “yr egwyddor y bydd yn trin ieithoedd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal i gyflawni ei genhadaeth fel darparwr Addysg” er bod yr ystadegau'n gwrthdweud yr honiad.
- ☛ dywed *Coleg Meirion-Dwyfor* (yn eu taflen *Astudiwch yn Gymraeg*) ‘Mae Coleg CMD yn goleg dwyieithog...Gallwch ddewis astudio, yn Gymraeg neu yn Saesneg, y rhan fwyaf o'r pynciau sydd ar gael.’ Efallai fod y ‘rhan fwyaf’ ar gael o dan amodau yn Gymraeg, ond nid oes cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith.
- ☛ Mae *Coleg Menai'n* asesu angen pob myfyriwr am ddarpariaeth Gymraeg ac yn gofyn ym mha iaith yr hoffent dderbyn eu haddysg. Yn ymarferol, fodd bynnag, gellir cyflawni gwaith yn Saesneg lle nad oes unrhyw fyfyrwr yn cyflawni'u gwaith i gyd yn Gymraeg ond bod darlithwyr dwyieithog yn dysgu o leiaf un uned o waith yn ddwyieithog i'r rhai sy'n dewis hynny.
- ☛ Mae *Coleg Ceredigion* (Adran 3 o'u Cynllun Iaith ar *Gweithredu Egwyddor Cydraddoldeb*) yn honni fod ei wyneb cyhoeddus yn ddwyieithog ond yn cydnabod yn onest nad oes cydraddoldeb yn y ddarpariaeth addysgol ac yn ceisio gwella rywfaint ar y sefyllfa trwy'r Cynllun Iaith.

RHAID CASGLU FELLY NAD OES CYDRADDOLDEB RHWNG Y DDWY IAITH AC NAD YW CYNNIG CYFLEON WEDI ARWAIN AT GYDRADDOLDEB. MAE CYMDEITHAS YR IAITH YN MYNNU MAI'R UNIG GYDRADDOLDEB YMARFEROL YW SICRHAU FOD POB MYFYRIWR YN GALLU TRIN EI WAITH YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

4. Mae'r ffaith fod holl gynlluniau iaith y colegau'n gweld cyfrifoldeb yn awr i *farchnata'r* Gymraeg ac i *annog* myfyrwyr i'w defnyddio yn gydnabyddiaeth nad yw agenda cydraddoldeb honedig a chynnig cyfleon yn unig yn gweithio. Mae hyn yn ddatblygiad o bwys, a rhaid oedd ceisio cyflawni hynny. Mae'r canlyniadau siomedig yn dangos fodd bynnag mai *brwydro'n erbyn y lli* y mae ymdrechion marchnata cyrsiau Cymraeg, gan fod llawer o staff yn gwrthod datblygu sgiliau addysgu'n Gymraeg a llawer o fyfyrwyr yn derbyn y norm hanesyddol o addysg Saesneg yn enwedig gan fod llawer o anfanteision ymarferol i dderbyn addysg yn Gymraeg. Dyma'r wers sydd wedi'i dysgu trwy holl ymdrechion y colegau.
- ☛ Mae traean o fyfyrwyr *Coleg Meirion-Dwyfor* yn dweud mewn holiadur nad yw cwestiynau am addysg Gymraeg yn berthnasol iddyn nhw ! Dywed 24 o 25 o staff di-Gymraeg mewn un holiadur nad ydynt yn mynychu cwrs Cymraeg ar hyn o bryd.
 - ☛ Mae Cynllun Iaith *Coleg Sir Gâr* yn pwysleisio mai ‘hyrwyddo a hwyluso’ addysg Gymraeg yw'r nod – dim byd mwy! Mae bwriad i ‘annog y 78% (canran anhygoel) o staff sydd ar hyn o bryd yn ddi-Gymraeg i ddechrau (sic) dysgu Cymraeg’ – dim byd mwy nag annog a gobeithio. Nid yw'n arwydd da mai dim ond 25% o staff a ymdrafferthodd i lenwi a dychwelyd holiadur yn 2001 am eu galluoedd ieithyddol. O'r rhai a atebodd, dim ond 6% a honnodd eu bod yn

dysgu Cymraeg. Ceisiwyd cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth 'ond bu'r ymateb yn nhermau niferoedd a fynychodd yn siomedig'. Daw cydnabyddiaeth gan y coleg y gallai hyd yn oed targedau'r cynllun presennol fethu oherwydd agweddau – 'Mae'r ddarpariaeth ddwyieithog yn ddibynnol ar niferoedd ac anghenion ieithyddol myfyrwyr a staff ac ni ellir bob amser naill ai sicrhau fod digon o fyfyrwyr i redeg cwrs na chwaith fod tiwtor dwyieithog ar gael i'w gyflwyno'. Cyfyngedig, a dweud y lleiaf felly, yw gwerth y cynllun! Dywedir fod hon yn broblem trwy'r coleg gyda "defnydd gweddol isel" o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mewn gair, Saesneg yw iaith addysg a gweinyddu Coleg Sir Gâr ond bod ymdrechion caled i wthio rhywfaint o gyfleon Cymraeg i mewn. Am resymau hanesyddol o ran Seisnigrwydd yr hen C.C.T.A., ac oherwydd fod ardaloedd Saesneg iawn o ran iaith yn y sir, mae'r sefyllfa'n waeth yma nag yng Ngholegau Meirion-Dwyfor na Menai, ond nid oes gwahaniaeth hanfodol.

- ☛ Mae *Coleg Menai* hyd yn oed yn rhoi gwobrau i fyfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleon dwyieithog i geisio eu hannog i fynd yn erbyn yr hyn a ganfyddir fel y norm Saesneg mewn llawer o feysydd.
- ☛ Mae *Coleg Ceredigion* ar y llaw arall heb hyd yn oed drïo – mae'n ymfodloni ar "ymateb i ofynion darpar-fyfyrwyr am gyrsiau a gaiff eu cyflwyno'n ddwyieithog". Os nad ydynt yn gofyn.....

C. Cymraeg yn hanfodol – Cam hanesyddol ymlaen!

1. Mae'n amlwg ein bod wedi dod i derfyn y dull o gynnis cyfleon yn unig i fyfyrwyr a staff droi at addysg Gymraeg. Bach iawn fydd y cynnydd ychwanegol a wneir yn y cynlluniau iaith cyfredol ar hyd y trywydd hwn. Mae trin y Gymraeg fel atodiad 'dymunol' fel hyn yn ei israddio. Materion o bwys ymylol sy'n ddymunol neu'n ddewisol. Mae popeth o bwys sylfaenol yn 'hanfodol'. Ni fyddai unrhyw holiadur at fyfyrwr yn gofyn a hoffent ddysgu rhywfaint am dechnoleg gwybodaeth neu a hoffent barhau i gyflwyno'u gwaith mewn llawysgrifen, ac ni chaniateid i staff chwaith ddweud nad oeddent yn bwriadu ymdrafferthu i ddysgu dim am dechnoleg gwybodaeth. Mae TG yn sgil hanfodol. Yn yr un modd, mae'r gallu i drin gwaith yn Gymraeg yn y cymunedau Gymraeg hyn yn sgil hanfodol hefyd.

O dan y cynlluniau iaith presennol, mae'r Gymraeg yn brwydro'n erbyn y lli. Datganwn ei bod yn bryd yn awr droi'r lli a gosod dyddiad a tharged o wneud y gallu i drin gwaith yn Gymraeg yn hanfodol i bob cwrs yn y colegau hyn. Os na fydd asesiadau myfyrwyr yn dangos y gallu i drin gwaith yn Gymraeg, bydd bwlch yn eu cymhwyster ar gyfer gweithio yn yr ardaloedd hyn. Rhaid fydd i staff dderbyn hyfforddiant mewn-swydd i'w galluogi i drosglwyddo'r sgil hwn fel pob sgil arall.

O osod targed ac amserlen o'r fath – a fydd yn amrywio o goleg i goleg o ran faint o amser a gymer – bydd myfyrwyr a staff yn deall yn glir beth fydd y cyfeiriad i'r dyfodol. Ni wastreffir egni nac adnoddau ar "annog" a darparu cyrsiau cyfochrog. Bydd y Gymraeg yn sylfaenol i bob cwrs. Ni olyga hynny fod pob gwaith yn Gymraeg, ond na all unrhyw fyfyrwr osgoi gwneud defnydd o gwbl o'r Gymraeg. Rhaid fydd wrth ddigon o staff cymwys i sicrhau hyn er y gall fod cyfran o staff rhan-amser di-Gymraeg am gyfnod i ddod. *Dyma'r naid hanesyddol ymlaen y galwn ar y Colegau hyn i'w gymryd yn awr wrth ddiwygio eu Cynlluniau Iaith.*

2. Nid yw'n gysyniad cyfangwbl newydd e.e. symudodd *Coleg Ceredigion* tuag at wneud uned ar *Gyfathrebu* (Cymraeg) yn rhan o gwrs sylfaen pob myfyrwr llawn-amser yn gyfochrog gyda *Communication* (Saesneg). Ond golyga symudiad enfawr ymlaen e.e. yn 2003 dim ond 40% o staff Meirion-Dwyfor (sy'n cynnwys cyrsiau academiaidd Lefel "A" hefyd) a weithredai'n ddwyieithog. Unig ystyr difrifol cydraddoldeb yw symud tuag at sefyllfa lle bo pawb yn ddwyieithog. Dyma ateb i broblem a chwân *Coleg Sir Gâr* 'Er bod y rhan helaethaf o fyfyrwyr yn cael cynnis y cyfle i wneud rhan neu eu holl waith yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, dim ond cyfran fechan sy'n dewis gwneud hynny.'

O gael dewis, mae'n eitha posib mai'r un 'gyfran fechan' yn unig o fyfyrwyr fyddai'n dewis gorfod teipio gwaith yn lle cyflwyno mewn llawysgrifen flêr, ac

mae'n bosibl – o gael dewis – y byddai llawer yn hoffi bod yn y coleg am lai o oriau hefyd! Ni ddylid disgwyl i fyfyrwyr fynd yn erbyn y lli neu'r norm. Gwaith addysgwyr yw cynllunio cyflew sgiliau hanfodol fel rhan o gwrs, a dylai'r Gymraeg fel norm fod yn rhan o bob cwrs fel y mae'r Saesneg ar hyn o bryd. Rhagrith fel arall yw cyfeirio at "gydraddoldeb".

3. Gallwn gyfiawnhau galw am hyn ar sail addysgol. Yn y cymunedau Cymraeg hyn, mae'r gallu i drin gwaith yn Gymraeg ar lafar ac mewn ysgrifen yn sgil hanfodol o ran cyfathrebu effeithiol. Mae pob addysgwr blaengar o'r farn fod cyfathrebu da'n sylfaenol i bob cwrs.
4. Datganwn hefyd na fydd byw ein cymunedau Cymraeg onibai fod y Gymraeg yn dod yn *hanfodol* i fywyd a gwasanaethau ynddynt. Mae cyfraniad pwysig ac amlwg gan y colegau hyn i'w wneud.
5. Rhaid i'r Colegau hyn nid yn unig gynnig addysg Gymraeg ond – fel pob corff cyhoeddus yn y cymunedau Cymraeg yn y dyfodol – hefyd weithredu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwyfwy. Dangosir y broblem yn fwyaf amlwg yng Nghynllun Iaith Coleg Sir Gâr. Dywedir fod fersiynau dwyieithog o ddogfennau'n gwbl amodol – ar dargedau ac ar ddefnydd ac ar ddod i derfyn stoc y fersiynau uniaith Saesneg yn gyntaf!! Dywedir na ellir gwarantu trefnu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn Gymraeg gan fod mwyafrif y staff yn ddi-Gymraeg, ac mewn un wythnos brawf yn Ionawr 2001 nid oedd ond 8% o'r galwadau ffôn yn Gymraeg. O dan y drefn bresennol sefydliad Saesneg sy'n godde'r Gymraeg o dan amodau neilltuol ydyw. Rhaid wrth newid llwyr.

Ch. Gweithredu'n hargymhellion yn ymarferol

1. Pwysleisiwn unwaith yn rhagor mai gwaith caled unigolion yn gosod sylfeini addysg Gymraeg yn y colegau hyn dros y degawd diwethaf sydd wedi'i gwneud yn ymarferol i ni alw yn awr am y naid hanesyddol hon ymlaen.
2. Ni fyddai rhaid dileu'r Cynlluniau Iaith a'u cychwyn o'r newydd. Byddai dal angen yr un gwaith manwl o ran datblygu cyrsiau ac adnoddau a staff Cymraeg a newid iaith weinyddol y colegau. Yr hyn y byddai angen ei newid fyddai'r adran gyntaf – gan osod nod newydd o wneud y Gymraeg (fel y Saesneg) yn sylfaenol i bob cwrs yn hytrach na cheisio cynnig cyfleon dewisol. Byddai hyn wedyn yn cryfhau a rhoi impetws newydd i'r holl waith cynllunio manwl o ddarparu'r addysg Gymraeg. O wybod mai dyma gyfeiriad y dyfodol, ni westreffid egni ac adnoddau ar "annog" pobl i dynnu'n groes i'r lli. Ceid gwared ar ddyblygu gwastraffus, a byddai staff yn llawer fwy tebygol o dderbyn hyfforddiant mewn-swydd o ddeall mai dyma'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.
3. Cydnabyddwn na allai'r colegau gyflawni'r fath newid ar eu pennau eu hunain.
 - ☛ Byddwn fel Cymdeithas yn pwysu ar *ELWA* i ddarparu adnoddau dysgu digonol yn Gymraeg fel nad yw myfyrwyr dan anfantais fel y tystia Coleg Menai. Yn yr adran ar *Sylwadau Staff ar weithrediad y Cynllun Iaith* ym Meirion-Dwyfor, dywedir "Byddai'n dda cael mwy o gymorth gyda'r gwaith o baratoi adnoddau cyfrwng-Cymraeg. Un o'r rhesymau nad yw'n myfyrwyr yn parhau i astudio yn y Gymraeg ydy'r diffyg adnoddau". Mater o fuddsoddi ac hefyd o drefnu yw hyn. Ar hyn o bryd, mae llawer o diwtoriaid yn paratoi adnoddau Cymraeg yn annibynnol ar ei gilydd – rhaid i *ELWA* gael trefn ar hyn.
 - ☛ Rhaid fydd i'r Cyrff Arholi a Gwirio allannol (llawer ohonynt y tu allan i Gymru) newid eu ffyrdd a'u staff i fedru gweithredu'n effeithiol tu fewn i'r realiti newydd yng Nghymru.
 - ☛ Rhaid fydd i ni fel Cymdeithas bwysu hefyd ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau newidiadau o'r fath o ran y Cyrff Gwirio Allannol ac o ran darparu adnoddau i sicrhau fod y Colegau hyn yn gallu symud ymlaen fel rhan o becyn i adfywio'n cymunedau Cymraeg.
4. Rhaid ystyried ofnau'r colegau y byddant yn colli myfyrwyr ac felly cyllid trwy fynnu fod y Gymraeg yn hanfodol i bob cwrs – (a) Mae mwyafrif eu myfyrwyr yn rhan-amser ac yn byw yn lleol, a byddai'n gwbl anymarferol iddynt fynd at unrhyw goleg arall. (b) O ran y myfyrwyr llawn-amser, byddwn yn lleihau pwysau o'r fath trwy bwysu hefyd ar golegau cyfagos i wella eu darpariaeth Cymraeg, ac hefyd trwy bwysu ar gyrff cyhoeddus yn ein cymunedau Cymraeg i gyflwyno eu gwasanaethau'n Gymraeg yn y dyfodol. Bydd o fudd i fyfyrwyr ddysgu'r sgiliau hanfodol. (c) Hanes twf sydd i addysg gyfrwng-Gymraeg unwaith y sylweddolir fod datblygiad o ddifri. Lle bu addysg Gymraeg yn

hanfodol, nid dewisol, yn ein cymunedau Cymraeg e.e. datblygu ysgolion cynradd categori "A" trwy Gaerfyrddin a Cheredigion, derbyniwyd hyn yn wresog hyd yn oed gan fewnfudwyr i Gymru. Does dim tystiolaeth i awgrymu na fyddai'r un ymateb yn y maes hwn hefyd.

D. Casgliad

Dylid gweld y degawd diwethaf fel cyfnod o drawsnewid yn y Colegau hyn o'r hen gyfnod lle addysgwyd bron yn gyfangwbl yn Saesneg i'r cyfnod newydd lle bydd y Gymraeg yn hanfodol i holl addysg a gweinyddiaeth y colegau hyn. Mater o esblygiad yw hyn – rhaid cyflymu'r broses oherwydd yr argyfwng sy'n wynebu'n cymunedau Cymraeg *ac oherwydd fod y Colegau'n methu trosglwyddo sgil addysgol o bwys i gyfran helaeth o'u myfyrwyr ar hyn o bryd.*